

Yn ystod y ddau rhan cyntaf bydd yna groesgyfeirio at dri gwahanol bapurau sef; Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), Archwiliad Annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen Yng Nghymru (2014) a Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol (2015).

Bydd y trydedd rhan yn blog sydd yn sôn bach am pam maent yn bwysig i blant chwarae yn yr awyr agored.

Mae cwricwla'r Blynyddoedd Cynnar yn wahanol ym mhob gwlad, rhai yn fwy tebyg nag eraill. Er enghraifft, mae cwricwlwm Te Whāriki yn Seland Newydd, sydd wedi gweld llawer o wledydd eraill yn cael ysbrydoliaeth gan, wrth rannu'n dri grŵp oedran gwahanol: genedigaeth-18 mis, un i dair blynedd, a thair i oedran ysgol (Veazey, 2020). Roedd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Cymru a gyflwynwyd ym Medi 2010 wedi'i anelu at blant rhwng tair a saith oed. Safonau sydd ar fin diwallu anghenion datblygiadol pob plentyn yw'r cwricwlwm. Gyda'r nod o annog datblygiad dychymyg plant, i fod yn greadigol ac i wneud dysgu yn hwyl am fod yn fwy effeithiol (Llywodraeth Cymru, 2019).

Ym mis Gorffennaf 2013 cyhoeddodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai'r Athro Iram Siraj yn cyflawni archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru. Yn dilyn adroddiad Iram Siraj, cyhoeddodd Huw Lewis bod y canfyddiadau yn gadarnhaol a bod y cwricwlwm newydd yn werthfawr dros ben ac yn ffordd effeithiol o addysgu. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod anghysondebau yn y modd y cafodd y cwricwlwm ei gyflwyno ledled Cymru. Dywedodd Huw Lewis y dylai pob plentyn yng Nghymru gael cynnig safon dysgu gyson uchel, a bod angen mynd i'r afael â'r anghysonderau hyn (y Gweinidog Addysg, 2014). O ganlyniad i'r adroddiadau hyn a'r canfyddiadau, crëwyd Cwricwlwm Newydd Cymru er mwyn sicrhau'r cwricwlwm ar draws Cymru yn gyson yn cael ei gyflwyno.

Mae llawer o bobl yn ystyried chwarae fel rhywbeth gwahanol i'r hyn mae pobol eraill yn dweud yw chwarae. Mae rhai yn dal i gredu dylech ddefnyddio chwarae fel gwobr am ymddygiad da neu am gwblhau tasg benodol. Gall gwahanol ddiwylliannau ganfod chwarae mewn gwahanol ffyrdd. Dywed bod sut mae rhieni yn feddwl am chwarae yn cael effaith ar sut mae'r plant yn meddwl yw chwarae (Avornyo a Baker, 2021, t. 176). Fodd bynnag, maen nhw'n cydnabod bod y rhan fwyaf o astudiaethau wedi canolbwyntio ar ganfyddiadau'r rhiant o chwarae yn hytrach nag ymarferydd

proffesiynol. Mae llai o astudiaethau wedi'u cynnal ar y rhesymau y tu ôl i ganfyddiadau gwahanol ymarferydd o beth yw chwarae. Nodwyd Whitebread *et al.* (2012) bod canfyddiad oedolion o berygl neu risg yn effeithio ar sut maen nhw'n gweld 'chwarae'. Maen nhw hyd yn oed yn mynd mor bell â dweud bod y pryder hwn o risg sy'n gysylltiedig â chwarae yn atal plant rhag gallu chwarae'n rhydd. Dyma ddwy enghraifft o pam oedd Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen ddim mor effeithiol, gan fod 'chwarae' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobol. Wrth ystyried chwarae yn yr awyr agored, dywed Cheng *et al.* (2022, t. 2) bod risg yn cael ei canfu fel rhywbeth negyddol. Ond, dyle chwarae yn yr awyr agored cael ei gweld fel bod y buddiai'n gorbwyso'r peryglon. Maent yn sôn am pa mor bwysig mae e i blant cael chwarae'n anffurfiol. Yn wrthwyneb, dywed Dr Peter Grey (ECETP, 2018) does dim sut beth a chwarae'n anffurfiol, gan fod pob adeg mae'r plant yn chwarae, maent yn dilyn rhyw reolau, hyd yn oed os byddent yn dilyn rheolau aur wrth chwarae. Mae hyn dal yn dilyn rhyw fath o strwythur.

Awgryma McInnes *et al.* (2011, t. 131) mae plentyn yn fwy tebygol o weld bob tasg fel 'chwarae' os nad yw'r plentyn yn datblygu ciw presenoldeb yr oedolyn. Mae hyn wedi ymddangos y bydd plentyn yn cymryd rhan yn well mewn tasgau. Ac mae hynny, yn ei dro, yn caniatáu iddyn nhw ddysgu mewn ffordd fwy effeithiol. Hoorn *et al.* (2014, t. 6) yn cytuno, os yw plentyn yn gynhenid wedi'i ysgogi a'i gymryd rhan mewn gweithgaredd, eu bod yn fwy tebygol o ddysgu a datblygu eu sgiliau a mwynhau ei wneud.

Mae nodweddion chwarae yn ymddangos trwy gydol y cwricwlwm Sweden sy'n ymddangos mewn llawer o'u gwerthoedd craidd. Chwarae yw sut mae plant, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, yn caffael gwybodaeth (Skolverket, 2018). Mae Te Whāriki yn dweud bod plant yn dysgu gwneud y cysylltiad rhwng eu meddyliau a'u teimladau a'u dychymyg drwy chwarae. Gall profiadau a gwybodaeth cael ei ddysgu drwy chwarae (Ministry of Education, 2015). Mae Dr Peter Gray yn cytuno ac yn dweud mai dim ond trwy chwarae y gellir caffael rhai sgiliau a gwybodaeth. Mae sgiliau fel cyfathrebu cymdeithasol a dysgu gweithio gydag eraill yn ddwy enghraifft. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol bwysig i blant gan y byddant yn eu helpu drwy gydol eu hoes, i fod yn oedolyn a'r gweithle lle byddant, yn fwy na thebyg, yn gweithio gydag eraill yn ddyddiol ac felly'n sgiliau amhrisiadwy (ECETP, 2018). Crëwyd Bagloriaeth newydd Cymru er mwyn gwella sgiliau gydol oes plant oedran uwchradd. Fodd bynnag, mae Donaldson (2015) yn cydnabod pwysigrwydd cyflwyno'r sgiliau hanfodol, sgiliau gydol

oes hyn, o oedran cynnar a datblygu'r sgiliau hyn drwy gydol addysg y plentyn. Wrth ystyried y pwysigrwydd o chwarae, mae Llywodraeth Cymru (2014, t. 4) wedi tynnu syniadau o erthyglau 31, 15 a 12 o'r UNCRC (Unicef, 1989) i gynllunio polisïau chwarae, i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael y cyfle i chwarae.

Yn Archwiliad Annibynnol y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (Siraj a Kingston, 2014) mae llawer o wahanol feysydd lle byddai penaethiaid, athrawon ac ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant mewn gwahanol adrannau i sicrhau gwell ansawdd addysg i blant yng Nghymru. Roedd pontio yn faes oeddent yn sôn am yn yr adroddiad terfynol. Mae angen gwneud ymarferwyr yn ymwybodol a chael eu haddysgu ar sut y gall dod o leoliad cartref difreintiedig a bydd yn effeithio ar ddatblygiad a gallu plentyn i ddysgu. Soniwyd y dylid cydnabod pwysigrwydd cysylltu theori ac ymchwil ag addysgeg oedolion ar draws pob maes hyfforddi.

Un agwedd o'r hen gwricwlwm Cyfnod Sylfaen nad oedd yn gweithio oedd y lleoliadau yn cyflogi staff rhad, oedd heb y cymwysterau o safon uchel, er mwyn sicrhau cymarebau uchel. Er bod hyn yn ymddangos fel ateb da i fyny'r cymarebau a gobeithio rhoi gwell addysg i'r plant, gan ganiatáu i blant ddysgu a threulio amser gydag oedolyn mewn grwpiau llai, mae'n ymddangos ei fod wedi bod yn aneffeithiol. Felly, argymhellwyd bod y gymhareb yn cael ei gostwng o 1:8 i 1:10 neu hyd yn oed 1:12 heb aberthu ansawdd addysg (Siraj a Kingston, 2014). Mae ansawdd yr oedolyn mwy gwybodus yn bwysicach na niferoedd yr oedolion yn y lleoliad. Mae Cylch Datblygiad Proximal Vygotsky yn dibynnu ar yr oedolyn mwy gwybodus fel elfen hanfodol wrth ddarparu'r lefel orau o addysg i blentyn (Cicconi, 2014, t. 58). Felly, yr uchaf yw lefel y wybodaeth, yr uchaf yw lefel yr addysg a ddarperir i blentyn. Er bod Essa a Burnham (2020, t. 16) yn cydnabod y gall grwpiau llai bod o fudd i ddatblygiad iaith a chyfathrebu'r plentyn, maen nhw'n cytuno hefyd bod ansawdd aelodau o staff yn bwysicach na'r cymarebau. Fodd bynnag, mae WISERD (2015), yn anghytuno ac yn nodi y dylid gweithredu'r cymarebau staffio uwch o hyd yn y cyfnod sylfaen a bod cyllid yn rhwystr wrth brofi'r cymarebau hyn a oedd yn ymddangos fel eu bod yn wahanol i bob awdurdod lleol.

Mae'n ymddangos bod argyfwng ariannol ar hyn o bryd yn addysg Cymru. Gall diffyg cyllid ddylanwadu ar hyfforddiant CPD a wneir, neu i sicrhau'r cymarebau gorau rhwng yr oedolion a phlant. Unwaith eto, mae hwn i weld yn wahanol mewn gwahanol

ardaloedd ar draws Cymru. Tra bod gan rai ysgolion y cyllid i anfon aelodau o staff ar hyfforddiant CPD, ond efallai nad oes ganddynt y cyllid i dalu am orchudd dosbarth, dyw lleoliadau eraill ddim yn cael digon o arian i anfon staff ar hyfforddiant. Mae angen mynd i'r afael â'r anghysonderau hyn ledled Cymru ynglŷn â sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn derbyn yr un lefel o ofal ac addysg.

Rhywbeth positif a daeth o'r cymarebau uwch fel rhan o'r hen gwricwlwm Cyfnod Sylfaen oedd ffordd oedd yn galluogi'r plant i dreulio mwy o amser yn yr awyr agored gan fod mwy o aelodau staff i gefnogi'r plant i weithio gyda grwpiau bach (Siraj a Knight, 2014).

Mae ymarferydd wedi sylweddoli bod yna gynnydd o blant sydd yn cerdded yn ansefydlog wrth gerdded ar goncrid a'r carped. Felly, mae'n bwysig iawn i roi'r cyfle i blant cerdded tu allan ac ar dir anwastad o oedran ifanc. Bydd hyn yn galluogi'r plentyn i ddatblygu sgiliau modur gros sydd angen er mwyn datblygu'r sgil o gerdded ar bob math o diroedd, wastad ac anwastad (Knight, 2013, t. 95). Gall yr ardal allanol darparu'r fath hon o brofiad i'r plentyn nid yw unrhyw ddosbarth tu fewn yn gallu atgynhyrchu. Fodd bynnag, wrth gasglu data ar gyfer ei phapur, darganfuwyd Ernest (2014, t. 744) y rhwystrau mwyaf sydd yn atal y plentyn cael y profiadau yma yw; dim mynediad i ardal allan ar y lleoliad/neu angen bws i gyrraedd rhywle addas, diffyg amser, tywydd gwael, pryderon diogelu a ddim digon o gymarebau staff. Er mwyn torri lawr y rhwystrau yma mae angen hyfforddi digonol ar yr ymarferydd (Ernest, 2014, t. 746). Er enghraifft, hyfforddi'r ymarferydd er mwyn gwybod sut i gefnogi dysgu tu allan trwy gydol y flwyddyn, beth bynnag yw'r tywydd. Credwyd ysgolion coedwig bod yna nifer o wahanol gyfleoedd i'w ddysgu wrth dreulio amser tu allan ym mhob tywydd (Forest School Lou, 2022).

Bydd angen oedolyn mwy gwybodus a galluogi er mwyn sicrhau bod plant yn cael profiad addysg ddwys wrth dreulio amser tu allan. Gall hyn cael ei gwneud wrth hyfforddi ymarferydd i safon uwch. Y manteision o wneud hyn yw lefelau lles sydd yn uwch, plant sydd yn ymgysylltu yn well a phlant sydd yn fwy hyderus. Mae'r pethau yma yn cyfateb i ddatblygiad holistig y plentyn. Gall plentyn datblygu empathi i'r amgylchedd a do di adnabod ei effaith ar y bywyd fyw (Llywodraeth Cymru, 2022a). Mae'r holl sgiliau hyn yn helpu plant i ddod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus, sy'n un o bedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2022b).

Rhan Dau.

Mae pob plentyn yn unigryw. Does dim dau blentyn yr un peth. O liw gwallt, i daldra, beth yw ei hoff degan, crefydd, oes ganddynt anabledd, ble maent yn byw, sut maent yn hoffi dysgu, neu hyd yn oed pa fath o deulu maent yn dod o. Rhwng 2018 a 2019 roedd yna 38% o'r boblogaeth yng Nghymru yn byw gyda rhyw fath o anabledd dysgu (Senedd Cymru, 2022). Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod yna diffyg data ar hyn. Mae pob un o'r agweddau yma yn gwneud pob plentyn yn wahanol. Felly mae pob plentyn yn unigryw. Os ydi ymarferydd yn adnabod y plant yn dda gall roi dull unigol ar waith. Mae hyn yn hynod o bwysig i ddatblygu yr agwedd hon yn enwedig wrth weithio gyda phlant sydd ag anghenion ychwanegol. Dyle pob ymarferydd canolbwyntio ar beth mae plentyn yn gallu gwneud ac nid beth maent ddim yn gallu ei gwneud, mae hyn yn lle bydd y plant yn dechrau dysgu (McNair a Cerdan, 2022). Cydnabod Donaldson (2015) hyn, ac un o ei chymeradwyaethau oedd defnyddio Camau Cynnydd fel pwynt i gyfeirio at yn hytrach na ble dyle'r plentyn i fod, gan fod pob plentyn yn wahanol, felly bydd plant yn cyrraedd y Camau Cynnydd mewn amser ei hunain ac nid edrych arno fel bod rhaid iddyn nhw gyrraedd rhyw gam cyn rhyw oedran. Bydd rhai plant angen mwy o amser i gyrraedd rhyw gam na phlentyn arall, yn yr un modd bydd rhai plant yn cyrraedd y cam cyn pob plentyn arall yn y dosbarth. Felly dyle'r ymarferydd dilyn Camau Cynnydd yn lle mynd yn ôl beth dyle'r plentyn galli wneud erbyn rhyw oedran (Donaldson, 2015; Siraj a Kingston, 2014). Dywed Donaldson (2015) bod yr hen ffordd ble roedd plant yn pontio o Cyfnod Sylfaen i Cyfnod Allweddol 2, neu o'r Cyfnod Allweddol 2 i Cyfnod Allweddol 3 yn cael effaith negyddol gan y plant ac yn gwneud nhw yn llai cysylltiedig ar ddysgu. Felly cymeradwyaeth arall oedd cael gwared y Cyfnodau Allweddol yma trwy yr ysgol i gyd, a chyflwyno Camau Cynnydd yn lle ni.

Dyle arsylwi digwydd yn ddyddiol ac yn naturiol ac nid rhywbeth ychwanegol. Bydd hyn yn arwain at yr ymarferydd yn dysgu yn well, yn fwy effeithiol, a'r plentyn yn dysgu yn well o ganlyniad (Donaldson, 2015; Abbott a Langston, 2005, t. 93). Fodd bynnag, mae Giardiello, McNulty ac Anderson (2013, t. 130) yn cydnabod gall rhwystrau atal hyn i ddigwydd. Dywed bod rhai ymarferydd yn gweld trefn y dydd yn rhyw fath o rhwystr, falle does dim digon o amser yn y dydd i cynllunio pryd i asesu. Gall y rhwystr hyn cael ei goresgyn trwy gwneud arsylwi fel rhan o'r trefn y dydd. Gall arsylwi unrhyw adeg o'r diwrnod, o amser tu allan, amser bwyta a cael tafodiaith gyda'r plant i siarad

gyda'r plant tra bod nhw'n gwneud unrhyw gweithgaredd. Mae asesu yn bwysig er mwyn darganfod unrhyw ardaloedd mae angen mwy o gymorth ar y plentyn, ble maen nhw yn ei datblygiad ac i helpu'r ymarferydd er mwyn cefnogi ei gynllunio (Ministry of Education, 2017; Education Scotland, 2023; McLachlan, 2021). Gall arsylwi plant arwain at asesu nhw os ydi'r ymarferydd yn gweld bod rhyw blentyn wedi datblygu rhyw sgil newydd. Trwy asesu yr plant i weld ble maen nhw a ble mae angen mwy o help, bydd hyn yn arwain at blant sydd yn ymgysylltu yn well a dysgu yn fwy effeithiol o ganlyniad o hyn (Beckley, 2012, t. 130).

Mae yna sawl gwahanol ddulliau i gofnodi wrth arsylwi. Yn Seland Newydd maent yn defnyddio rhywbeth o'r enw 'Learning Stories' sydd yn cofnodi yn bethau fel beth mae'r plentyn neu babi wedi bwyta, pryd cysgodd yn ystod y dydd, pa weithgareddau sydd wedi cael ei gwneud yn ystod y dydd a lluniau. Gall hyn fod o gysur i rieni sydd yn bryderus wrth adael ei phlentyn wrth gefnogi'r perthynas rhwng y lleoliad a'r rhieni (Ministry of Education, 2020). Wrth wneud ymchwiliad mewn i 'Learning Stories' yn yr Almaen, dywed Knauf (2018, t. 433) bod yna wahaniaeth mawr rhwng sut a beth mae gwahanol ymarferydd yn cofnodi yn y 'Learning Stories'. Roedd yna gwahaniaeth mawr yn beth oedd yn cael ei arsylwi, beth oedd yn cael ei chofnodi lawr ac mewn pa ffordd. Fodd bynnag, dywed Knauf (2018, t. 433) bod angen mwy o ymchwil i ddarganfod yn union pa fath o hyfforddiant mae'r ymarferydd yn cael er mwyn dysgu sut i wneud 'Learning Stories' er mwyn cael rhyw fath o gysondeb. Ond, gall cofnodi 'Learnign Stories' hala lawer o amser i wneud felly dydyn nhw ddim yn addas i bob lleoliad. Yn enwedig gyda phroblemau ariannol mae ysgolion yn ei wynebi. Bydd pob un o'r 'learning Stories' yn wahanol ac yn bersonol i'r unigolion.

Mae arsylwad sampl amser yn ffordd arall o arsylwi plentyn. Mae hyn yn digwydd dros ryw gyfnod o amser, falle awr, a fydd yr ymarferydd yn cofnodi lawr pob pum munud beth yn union mae'r plentyn yn gwneud, pwy maent yn chwarae gyda, sut maent yn chwarae a gwneud nodiadau am hyn. Bydd hyn dweud wrth yr ymarferydd ble mae'r plentyn yn hoff iawn o chwarae. Gall hyn fod yn ffordd dda i ddarganfod pa lefel o ddiddordeb sydd gyda'r plentyn mewn un gweithgaredd. Fodd bynnag, gall fod yn heriol i wneud mewn ardaloedd ble mae chwarae rhydd yn digwydd (Brodie, 2023). Gan fod yr arsylwi yn digwydd pob pum munud, mae hyn yn golygu gall yr ymarferydd arsylwi sawl plentyn tu fewn yr awr yna.

Mewn lleoliad blynyddoedd cynnar mae pob plentyn yn dechrau yn y lleoliad gyda gwahanol gredoau yn ôl ei phrofiadau personol, sut maent yn cael ei fagu a beth yw credoau diwylliannol ei theulu (Freeston, 2019). Wrth ystyried gwaith Bronfenbrenner a'i system ecolegol, mae Office for Multicultural Learning (2023) yn dweud bod hyn golygu bod diwylliannau'r plant yn ffurfio pob agwedd o'u bywydau, ac mae rhaid cydnabod hyn. Yn sawl gwahanol ddiwylliannau mae merched yn dioddef o anffafiaeth rywiol. Mae merch yn lawer fwy tebygol o ddim cael mynd i ysgol, i briodi'n ifanc a theimlo yn is-raddol na bechgyn. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar ei datblygiad ac eu haddysg (Save the Children, 2023). Falle bydd rhai teuluoedd ddim yn gweld e yn bwysig iawn i hala eu merched i'r ysgol, felly bydd angen ystyried hyn wrth weithio gyda phlentyn sydd yn rhan o ddiwylliant, neu fod ei rhieni yn dod o ddiwylliant ble roedd hyn yn dderbyniol.

Y grŵp o blant sydd yn is-berfformio dros y cyfan yw plant 'Gypsy Romans/Travellers' (GRT). Mae hyn yn cynnwys datblygiad, ymddygiad a phresenoldeb y plant. O ganlyniad, dim ond 36% o blant GRT sydd yn cyrraedd lefel da o ddatblygiad, i gymharu â 69% o blant dros y wlad i gyd. Gyda safon sgiliau mathemategol a llenyddiaeth yn dioddef fwyaf (Mulcahy *et al*, 2017). Gan fod y fath hon o ddiwylliant yn trefeillio dros y wlad mae hyn yn golygu bydd y plant yn symud o un ysgol i'r llall yn aml. Gall hyn arwain at blant colli mas ar ei addysg gan ei fod yn teimlo'n ansefydlog a cholli unrhyw ymlyniad maent yn datblygu gyda ffrindiau, ymarferydd neu hyd yn oed cymuned (Myers, 2018, t. 355).

Blog.

Mae pawb yn siarad am: Pam maent yn bwysig i ddefnyddio'r awyr agored i'w ddysgu?

Bu astudiaethau niferus sydd wedi cydnabod pwysigrwydd treulio amser yn yr awyr agored a'i fuddion cyfannol ar ddatblygiad plant. Kemple *et al*. (2016, t. 451) yn cydnabod bod plant, yn anffodus, yn treulio llai a llai o amser yn yr awyr agored ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu datblygiad cyfannol. Mae Llywodraeth Cymru (2022a) yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu a sut mae'n helpu lles, hyder a'u hymgysylltiad y plentyn yn y gweithgaredd. Os yw plant yn cymryd mwy o ran yn eu hamgylchedd dysgu, maen nhw'n fwy tebygol o ddysgu a datblygu. Nid yw dysgu yn digwydd ac ni ddylai ddigwydd yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Mae ystafelloedd

dosbarth yn wych ar gyfer darparu amgylchedd cynnes, cysgodol, strwythuredig i ddysgu. Ond ni all gynnig yr hyn sydd gan yr awyr agored i'w gynnig. Mae Eick, 2017, t. 800) yn awgrymu defnyddio amser a dreulir yn yr awyr agored i wella unrhyw ddysgu yn y dosbarth drwy ganiatáu i'r plant gael y profiadau hyn yn yr awyr agored a gwneud cysylltiadau â'r hyn y maent wedi bod yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth gyda'r awyr agored. Mae cymaint o gyfleoedd newydd a gwahanol i ddysgu yn codi o dreulio amser yn yr awyr agored. Adlewyrchir hyn mewn sawl cwricwla gwahanol sy'n cael eu gweithredu ledled y byd. O ysgolion Coedwig yn Sgandinafia, Kindergarten a grëwyd gan Froebel i'r Cwricwlwm Newydd yng Nghymru, mae'r awyr agored yn cael ei gydnabod o'r diwedd am ei bwysigrwydd a'i effaith mae'n ei gael ar fywydau plant.

Frederich Froebel yw un o'r damcaniaethwyr cynharaf a gydnabu bwysigrwydd yr awyr agored ar ddatblygiad plentyn. Er bod y rhan fwyaf o waith cynharach Froebel wedi'i ganoli o gwmpas plant saith mlynedd a hŷn, mae e yn cydnabod mai blynyddoedd cynnar yw lle mae sgiliau pwysig adeiladu sylfaen bwerus a dylanwadol yn cael eu hadeiladu. Daeth Froebel i'r casgliad ei bod hi'n llawer anoddach i osod y sgiliau yma o oedran hŷn heb y profiadau hyn yn y blynyddoedd cynnar (Tovey, 2012, t. 10). Ac felly Frederich Froebel greodd y Kindergarten cyntaf, sydd yn golygu 'gardd plentyn' yn Almaeneg. Credai Froebel mai'r ffordd orau i blant ifanc ddysgu, yw arsylwi ar y byd naturiol yn uniongyrchol. Roedd Froebel yn annog plant i gael eu hardal fach eu hunain yn yr ardd lle gallent nhw dyfu beth bynnag roedden nhw eisiau. Credai, drwy roi'r dewis hwn iddynt, ei fod yn rhoi cyfrifoldeb iddyn nhw. Os na fydden nhw yn edrych ar ôl yr ardal, yna bydd y plant yn gweld bod dim yn tyfu yna. Fodd bynnag, drwy ofalu am yr ardal, byddai meithrin yr amgylchedd yna yn arwain at ardal sydd yn ffynnu. A fyddai, gobeithio, yn arwain y plant i wneud y cysylltiad rhwng y gwaith tyfu a'u datblygiad eu hunain (Bruce, 2012, tt. 70-71).



Llun: Historical Events

in Early Childhood Education, dim dyddiad.


OND PAM NAD YW HYN WEDI CAEL EI WEITHREDU LEDLED YSGOLION A CHYN-YSGOLION YM MHOBMAN?

Gall fod llawer o rwystrau, ynglŷn â pham nad yw plant yn cael cymaint o ddysgu yn yr awyr agored ag y dylen nhw.

Yn ôl astudiaeth gan Nature England (2016) Mae ethnigrwydd a statws economaidd-gymdeithasol plant yn gorchymyn a yw plentyn yn llai neu'n fwy tebygol o dreulio amser yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae 56% o blant o aelwyd BAME yn ymweld ag amgylcheddau naturiol. Tra bod 74% o blant o gartrefi sydd ddim yn BAME yn ymweld ag amgylcheddau naturiol yn rheolaidd. Gallai rhwystr arall fod yn arian. Mae'r astudiaeth yn dangos os yw plentyn yn dod o aelwyd incwm uwch yna maen nhw'n fwy tebygol o ymweld yn aml. Fodd bynnag, cynhaliwyd yr astudiaeth hon yn Lloegr yn unig, ac mae bron yn 7 oed, felly gallai'r ffigyrau fod wedi newid yn ddramatig yn yr amser hwnnw.

Figure 5 - Frequency of visits to the natural environment during last 12 months by region of residence (% of children)

Base: All children in Year 1 and Year 2 of pilot study (n=10,235)




Note: sum of percentages may not equal 100% due to rounding

Llun: Nature England, 2016.

Yn ôl astudiaeth gan y National Trust (Kennedy, 2018) mae nifer y plant sy'n treulio amser yn yr awyr agored o'i gymharu ag un eu rhieni wedi haneru mewn cenhedlaeth! Dywedon nhw fod llai a llai o blant yn treulio unrhyw amser mewn amgylcheddau awyr agored, naturiol nag erioed o'r blaen. Efallai mai dyma pam fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu diwygio'r cwricwlwm oedd ei angen.

Os yw plant yn wir yn treulio llai o amser yn yr awyr agored oherwydd rhesymau amrywiol, yn byw mewn ardaloedd mwy trefol fel bod ganddynt lai o fynediad at amgylcheddau naturiol, neu oherwydd y byddai'n well ganddynt chwarae gemau fideo, yna siawns mai nawr yw'r amser i ddechrau annog y plant i weld y pwysigrwydd a'r hwyl y gellir ei gael o dreulio amser yn yr awyr agored?



Llun: National Trust, 2012.

Mae gan fyw mewn oes ddigidol ei fuddion niferus, megis gwybodaeth sy'n hygyrch wrth gyffwrdd botwm i siopa o hwylustod ein cartref. Ond gyda budd-daliadau mae yna dynnu nôl wrth gwrs. Wrth gwrs, yn ystod pandemig COVID-19 daeth pawb yn ddibynol iawn ar ddyfeisiau electronig ar gyfer gwaith a dysgu. Roedd dyfeisiau electronig yn ei gwneud hi'n bosibl i deuluoedd aros adref yn ystod cyfnod mor frawychus ac ansicr. Roedd hyn yn defnyddio dyfeisiau ar ei orau. Fodd bynnag, er bod y byd yn araf yn dychwelyd i 'normal', ac mae pobl yn gallu mynd nôl i'r gwaith, ac ysgol eto, mae'r byd yn dal i weld yn fwy dibynol ar dechnoleg nag erioed o'r blaen. Bydd hyn i gyd yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad plant (Wong *et al.* 2021, t. 333).

Mae'r awyr agored yn rhan o natur, mae'r cyfan o'n gwmpas, mewn gwahanol ffurfiau, ond dyna sydd yn cysylltu bodau dynol.

Gyda hyn i gyd mewn golwg, maent yn edrych fel mai nawr mewn gwirionedd yw'r amser i groesawu, a gweithredu, cwricwlwm newydd yng Nghymru.



Llun: Mud and Bloom, dim dyddiad.

Cyfeirnod.

Abbott, L. A Langston, A. (2005) *Birth to Three Matters: Supporting the Framework of Effective Practice*. Maidenhead: Open University Press.

Avornyo, E. A. a Baker, S. (2021) 'The role of play in children's learning: the perspective of Ghanaian early years stakeholders', *Early Years*, 41(2-3), tt. 174-189.
Ar gael:
<https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1080/09575146.2018.1473344?needAccess=true&role=button> (Cyrchwyd: 15 Ionawr 2023).

Beckley, P. (2012) *Learning in Early Childhood: A Whole Child Approach From Birth to 9*. London: Sage.

Brodie, K. (2023) *Observations in early years – Different types, why they are important and examples*. Ar gael: <https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/making-observations> (Cyrchwyd: 15 Mawrth 2023).

Bruce, T. (2012) *Early Childhood Practice: Froebel today*. London: Sage.

Cheng, T. et al. (2022) 'Perceived challenges of early childhood educators in promoting unstructured outdoor play: an ecological systems perspective', *Early Years*, tt. 1-17.
Ar gael:
<https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1080/09575146.2022.2034140?needAccess=true&role=button> (Cyrchwyd: 16 Ionawr 2023).

Cicconi, M. (2014) 'Vygotsky Meets Technology: A Reinvention of Collaboration in the Early Childhood Mathematics Classroom', *Early Childhood Education Journal*, 42(1), tt.

57-65. Ar gael: <file:///C:/Users/phoeb/Downloads/s10643-013-0582-9.pdf> (Cyrchwyd: 30 Ionawr 2023).

Donaldson, G. (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus'. *Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*, gan Yr Athro Graham Donaldson CB. Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Cyrchwyd: 16 Ionawr 2023).

ECETP (2018) *Play-based Learning with Dr. Peter Gray* [fideo]. Ar gael: <https://www.youtube.com/watch?v=wJaAegok8L4> (Cyrchwyd: 16 Ionawr 2023).

Education Scotland (2023) *What is assessment, and when and how does it take place?* Ar gael: <https://education.gov.scot/parentzone/learning-in-scotland/assessment-and-achievement/what-is-assessment-and-when-and-how-does-it-take-place/#:~:text=%E2%80%8BAssessment%20is%20carried%20out,and%20young%20people%20in%20learning>. (Cyrchwyd: 13 Mawrth 2023).

Eick, C. J. (2017) 'Use of the Outdoor Classroom and Nature-Study to Support Science and Literacy Learning: A Narrative Case Study of a Third-Grade Classroom', *Journal of Science Teacher Education*, 23(7), tt. 789-803. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1007/s10972-011-9236-1?needAccess=true&role=button> (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2023).

Ernst, J. (2014) 'Early childhood educators' use of natural outdoor settings as learning environments: an exploratory study of beliefs, practices, and barriers', *Environmental Education Research*, 20(6), tt. 735-752. Ar gael: <https://accessece.org/resources/Documents/Nature%20Literature%20Study%202.pdf> (Cyrchwyd: 31 Ionawr 2023).

Essa, E. L. a Burnham, M. M. (2020) *Introduction to Early Childhood Education*. 8^{fed} arg. London: Sage.

Forest School Lou (2022) *How to Dress for Forest School – The Layer System for Outdoor Clothing* [fideo]. Ar gael: <https://www.youtube.com/watch?v=nRRFCdp9gCA> (Cyrchwyd: 31 Ionawr 2023).

Freeston, M. (2019) *Cultural capital in the EIF: what you need to know*. Ar gael: <https://www.eyalliance.org.uk/cultural-capital-eif-what-you-need-know#:~:text=In%20an%20early%20years%20setting,on%20their%20own%20personal%20circumstances>. (Cyrchwyd: 15 Mawrth 2023).

Giardiello, P., McNulty, J. ac Anderson, B. (2013) 'Observation, Assessment and Planning Practices in a Children's Centre', *Child Care in Practice*, 19(2), tt. 118 – 137. Ar gael: https://www.researchgate.net/publication/262968847_Observation_Assessment_and_Planning_Practices_in_a_Children's_Centre (Cyrchwyd: 13 Mawrth 2023).

Historical Events in Early Childhood Education. (dim dyddiad) *Friedrich Wilhelm Froebel*. [Llun]. Ar gael: <https://eceeearlyevents.weebly.com/friedrich-wilhelm-froebel.html> [Cyrchwyd: 16 Mawrth 2023].

Hoorn, J. V. et al. (2014) *Play at the Centre of the Curriculum*. 6^{ed} arg. London: Pearson.

Kemple, K. M. et al. (2016) 'The Power of Outdoor Play and Play in Natural Environments', *Childhood Education*, 92(6), tt. 446-454. Ar gael:

<https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1080/00094056.2016.1251793?needAccess=true&role=button> (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2023).

Kennedy, R. (2018) 'Children spend half the time playing outside in comparison to their parents', *child in the city* [blog]. Ar gael: <https://www.childinthecity.org/2018/01/15/children-spend-half-the-time-playing-outside-in-comparison-to-their-parents/?gclid=...> (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2023).

Knauf, H. (2018) 'Learning Stories: An Empirical Analysis of Their Use in Germany', *Early Childhood Education Journal*, 46(1), tt. 427 – 434. Ar gael: <file:///C:/Users/phoeb/Downloads/s10643-017-0863-9.pdf> (Cyrchwyd: 13 Mawrth 2023).

Knight, S. (2013) *Forest School and Outdoor Learning in the Early Years*. 2^{ail}. London: Sage.

Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/cymru-gwlad-le-mae-cyfle-i-chwarae.pdf> (Cyrchwyd: 17 Ionawr 2023).

Llywodraeth Cymru (2015) *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/storage/4f222e31-85c2-407b-9760-5ed8bd0b9e48/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen.pdf> (Cyrchwyd: 15 Ionawr 2023).

Llywodraeth Cymru (2019) *Sut mae fy mhlentyn yn datblygu yn y Cyfnod Sylfaen?*. Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/sut-mae-fy-mhlentyn-yn-datblygu-yn-y-cyfnod-sylfaen-canllaw-i-rieni-a-gofalwyr.pdf> (Cyrchwyd: 22 Ionawr 2023).

Llywodraeth Cymru (2022a) *Ystyriaethau gweithredu ac ymarferol*. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/ystyriaethau-gweithredu-ac-ymarferol/> (Cyrchwyd: 31 Ionawr 2023).

Llywodraeth Cymru (2022b) *Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm*. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/#curriculum-design-and-the-four-purposes> (Cyrchwyd: 31 Ionawr 2023).

McInnes, K. *et al.* (2011) 'Differences in practitioners' understanding of play and how this influences pedagogy and children's perceptions of play', *Early Years*, 31(2), tt. 121-133. Ar gael: <file:///C:/Users/phoeb/Downloads/McInnes,%20Howard%202011%20Practitioner%20Understanding%20of%20play.pdf> (Cyrchwyd: 15 Ionawr 2023).

McLachlan, C. (2021) *Assessment in Early Childhood Education*. Ar gael: <https://www.oxfordbibliographies.com/display/document/obo-9780199756810/obo-9780199756810-0179.xml> (Cyrchwyd: 13 Mawrth 2023).

McNair, L. J. a Cerdan, C. (2022) *A Froebelian approach: Nurturing self-regulation*. Ar gael: <https://www.froebel.org.uk/uploads/images/Nurturing-self-regulation-%E2%80%93-A-Froebelian-approach.pdf> (Cyrchwyd: 27 Chwefror 2023).

Ministry of Education (2015) *The New Zealand Curriculum*. Ar gael: <file:///C:/Users/phoeb/Downloads/NZ%20Curriculum%20Web.pdf> (Cyrchwyd: 16 Ionawr 2023).

Ministry of Education (2017) *Te Whāriki: Early childhood curriculum*. Ar gael: <https://www.education.govt.nz/assets/Documents/Early-Childhood/ELS-Te-Whariki-Early-Childhood-Curriculum-ENG-Web.pdf> (Cyrchwyd: 13 Mawrth 2023).

Ministry of Education (2020) *Learning Stories*. Ar gael: <https://nzcurriculum.tki.org.nz/Principles/Learning-to-learn-principle/Learning-stories#:~:text=Learning%20stories%20can%20be%20written,and%20wider%20family%20and%20wh%C4%81nau> (Cyrchwyd: 13 Mawrth 2023).

Mud and Bloom. (dim dyddiad) *Why it's so important that children get outside in the winter months*. [Llun]. Ar gael: <https://www.mudandbloom.com/blog/gettingoutdoorsinwinter> [Cyrchwyd: 16 Mawrth 2023].

Mulcahy, E. et al. (2017) *The underrepresentation of Gypsy, Roma and Traveller pupils in higher education*. London : King's College. Ar gael: https://www.cfey.org/wp-content/uploads/2017/07/KINGWIDE_28494_proof3.pdf (Cyrchwyd: 15 Mawrth 2023).

Myers, M. (2018) 'Gypsy students in the UK: the impact of 'mobility' on education', *Race Ethnicity and Education*, 21(3), tt. 353 – 369. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1080/13613324.2017.1395323?needAccess=true&role=button> (Cyrchwyd: 15 Mawrth 2023).

National Trust. (2012) *National Trust calls for action on children and nature*. [Llun]. Ar gael: <https://rethinkingchildhood.com/2012/03/30/national-trust/> [Cyrchwyd: 16 Mawrth 2023].

Nature England (2016) *Monitor of Engagement with the Natural Environment: a pilot to develop an indicator of visits to the natural environment by children – Results from years 1 and 2 (March 2013 to February 2015)*. Ar gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/498944/mene-childrens-report-years-1-2.pdf (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2023).

Nature England. (2016) *Monitor of Engagement with the Natural Environment: a pilot to develop an indicator of visits to the natural environment by children – Results from years 1 and 2 (March 2013 to February 2015)*. [Llun]. Ar gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/498944/mene-childrens-report-years-1-2.pdf [Cyrchwyd: 16 Mawrth 2023].

Office for Multicultural Learning (2023) *Theoretical Framework*. Ar gael: <https://www.scu.edu/oml/about-us/theoretical-framework/#:~:text=Bronfenbrenner's%20ecological%20systems%20theory%20is,very%20facet%20of%20your%20life> (Cyrchwyd: 15 Mawrth 2023).

Save the Children (2023) *Gender Discrimination: Inequality Starts in Childhood*. Ar gael: <https://www.savethechildren.org/us/charity-stories/how-gender-discrimination-impacts-boys-and-girls> (Cyrchwyd: 15 Mawrth 2023).

Senedd Cymru (2022) *Wythnos Anabledd Dysgu (20-26 Mehefin): gwella canlyniadau i bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru*. Ar gael: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/wythnos-anabledd-dysgu-20-26-mehefin-gwella-canlyniadau-i-bobl-ag-anabledd-dysgu-yng-nghymru/> (Cyrchwyd: 13 Mawrth 2023).

Siraj, I. a Kingston, D. (2014) *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru: Adroddiad terfynol Medi 2013 – Mawrth 2014*. Llywodraeth Cymru: Adran addysg a sgiliau. Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/archwiliad-annibynnol-or-cyfnod-sylfaen-yng-nghymru-adroddiad-terfynol.pdf> (Cyrchwyd: 30 Ionawr 2023).

Skolverket (2018) *Curriculum for the compulsory school, preschool class and school-age* *educare*. Ar gael: <https://www.skolverket.se/download/18.31c292d516e7445866a218f/1576654682907/pdf3984.pdf> (Cyrchwyd: 16 Ionawr 2023).

Tovey, H. (2012) *Bringing the Froebel Approach to your Early Years Practice*. 2^{il} arg. Abingdon: Routledge.

Unicef (1989) *A Summary of the UN Convention on the Rights of the Child*. Ar gael: https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf (Cyrchwyd: 16 Ionawr 2023).

Veazey, R. (2020) *Te Whāriki: What is New Zealand's Early Years Curriculum?*. Ar gael: <https://www.famly.co/blog/te-whariki-new-zealand-early-years-curriculum> (Cyrchwyd: 22 Ionawr 2023).

Whitebread, D. et al. (2012) *The importance of play*. Ar gael: https://www.waldorf-resources.org/fileadmin/files/pictures/Early_Childhood/dr_david_whitebread_-_the_importance_of_play.pdf (Cyrchwyd: 14 Ionawr 2023).

WISERD (2015) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150514-foundation-phase-final-cy.pdf> (Cyrchwyd: 30 Ionawr 2023).

Wong, C. W. *et al.* (2021) 'Digital Screen Time During the COVID-19 Pandemic: Risk for a Further Myopia Boom?', *American Journal of Ophthalmology*, 223(1), tt. 333.337.

Ar gael: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC7390728/pdf/main.pdf>

(Cyrchwyd: 5 Ionawr 2023).

Y Gweinidog Addysg (2014) *Datganiad Ysgrifenedig – Archwiliad annibynnol tymor byr o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru*. Ar gael: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-archwiliad-annibynnol-tymor-byr-or-cyfnod-sylfaen-yng-nghymru>

(Cyrchwyd: 22 Ionawr 2023).